# Rhaglen Adloniant

# Ffair Fai, Bargod – Dydd Sadwrn 13 Mai 2023

| Amser | Perfformiwr |
|---|---|
| Drwy'r dydd | Adar ysglyfaethus |
| Drwy'r dydd | Ffair hwyl |
| Drwy'r dydd | Gweithdai crefft |
| Drwy'r dydd | Stondinau bwyd, diod a crefft |
| Drwy'r dydd | Ffair grefftau fisol Bargod gan Crafty Legs |
| Drwy'r dydd | Fferm anwesu |
| Drwy'r dydd | Reidiau ar gefn asynnod |
| Drwy'r dydd | Sw Bach gydag Arddangosfeydd Bywyd Gwyllt |
| Drwy'r dydd | Paentio wynebau |
| Drwy'r dydd | Cerbydau trawiadol |
| Drwy'r dydd | The Mid Wales Ghostbusters yn cefnogi Tŷ Hafan |
| Drwy'r dydd | Y Gwasanaeth Tân |
| Drwy'r dydd | Cymdeithas Ail-greu HMS Wales |
| Drwy'r dydd | Gemau enfawr |
| Drwy'r dydd | Murrays Bargoed - gweithgareddau |
| Drwy'r dydd | Eglwys St Gwladys |
| 10.00am | Y Beic Cerddoriaeth Hudol (1) |
| 10.15am | Dau Gorrach y Gwanwyn (1) |
| 10.30am | Y Colomennod (1) |
| 10.45am | Pwyllgor Croesawu (1) |
| 11.00am | "Drive By!" (1) |
| 11.00am | Côr Ysgol Gymraeg Bro Sannan |
| 11.15am | Dau dwrist gwirion (1) |
| 11.30am | Y Morlo (1) |
| 11.30am | Sioe Pwnsh a Jwdi (1) |
| 11.45am | Cylchyn Hwla (1) |
| 12.00pm | Trwbl â swigod (1) |
| 12.00pm | Y Beic Cerddoriaeth Hudol (2) |
| 12.00pm | Dancelicious (TBC) |
| 12.15pm | Pwyllgor Croesawu (2) |
| 12.15pm | Dau Gorrach y Gwanwyn (2) |
| 12.30pm | Y Colomennod (2) |
| 1.00pm | "Drive By!" (2) |
| 1.15pm | Dau dwrist gwirion (2) |
| 1.30pm | Pwyllgor Croesawu (3) |
| 1.30pm | Y Morlo (2) |
| 1.30pm | Sioe Pwnsh a Jwdi (2) |
| 1.45pm | Cylchyn Hwla (2) |
| 2.00pm | Trwbl â swigod (2) |
| 2.00pm | Y Beic Cerddoriaeth Hudol (3) |
| 2.15pm | Dau Gorrach y Gwanwyn (3) |
| 2.30pm | Y Colomennod (3) |
| 2.45 pm | Pwyllgor Croesawu (4) |
| 3.00pm | "Drive By!" (3) |
| 3.15pm | Dau dwrist gwirion (3) |
| 3.30pm | Y Morlo (3) |
| 3.30pm | Sioe Pwnsh a Jwdi (3) |
| 3.45pm | Cylchyn Hwla (3) |
| 4.00pm | Pwyllgor Croesawu (5) |
| 4.00pm | Trwbl â swigod (3) |

***Gall y rhaglen hon newid ***Bydd y rhai a amlygwyd mewn gwyrdd yn perfformio gan Iceland**

## *Stondinau bwyd, diod a crefft*



Dros 25 o fasnachwyr bwyd, diod a crefft gyda chacennau, bara, losin, cyffug, crystau, sawsiau, siytni, pitsa a llawer mwy o gynnyrch blasus. Mwynhewch gael blas o ddiod neu ddwy gan y nifer fawr o werthwyr gwirodydd, cwrw a seidr.

**Facebook - @VisitCaerphilly**

## *Ffair grefftau fisol Bargod gan Crafty Legs*



Bydd y ffair grefftau fisol sydd newydd ei sefydlu yn cael ei lleoli ar Hanbury Square a Lowry Plaza yn ei man rheolaidd newydd a bydd yn gartref i tua 30 o grefftwyr. Gyda chelf a chrefft, addurniadau cartref a gemwaith, bydd digon o anrhegion wedi'u gwneud â llaw yn lleol ar gael i'w gweld er mwyn prynu anrheg anarferol ac unigryw.

**Facebook - @CraftyLegsEvents**

## *Reidiau ar gefn asynnod*



Mae plant wrth eu bodd â'r anifeiliaid blewog hyn. Reidiau am ddim ar gael trwy'r dydd!

**Facebook: Mike's Donkeys**

**Gwefan:** [www.mikesdonkeys.co.uk/](http://www.mikesdonkeys.co.uk/)

## *Falconry UK*



Bydd adar ysglyfaethus yn cael eu harddangos i ymwelwyr edrych arnyn nhw, cael lluniau gyda nhw a dysgu am ffeithiau a chefndir hynod ddiddorol y creaduriaid rhyfeddol hyn.

**Facebook: Falconry UK**

**Gwefan: www.falconry-uk.org**

### *Reidiau ffair hwyl*



Bydd nifer o reidiau ffair ieuenctid ledled y dref i ddiddanu’r rhai bach! O’r hwyldy gwallgof, y cwpanau te cyffrous, y reid Frozen swynol a’r trampolinau egnïol i enwi ond ychydig! Bydd hefyd reid Miami i gadw'r bobl yn eu harddegau a'r rhai sy’n hoff o gyffro yn ein plith yn hapus! Yn fwy na hynny, bydd yr holl reidiau am bris gostyngol, sy'n help mawr gyda’r argyfwng costau byw ac yn gwneud y rieidau'n fwy hygyrch.

**Facebook: Eddies Funfair For Hire**

### *Fferm anwesu*





Fferm anwesu i deuluoedd i ddod i adnabod creaduriaid del ac annwyl. Yn cynnwys geifr, defaid, ŵyn, asynnod bychain, cwningod a moch cwta. Gofynnwch gwestiynau am yr anifeiliaid annwyl hyn a dysgu am eu harferion.

**Facebook: Mike’s Donkeys**

**Gwefan:** www.mikesdonkeys.co.uk/

### *Gweithdai Crefft Creu a Chymryd Planhigyn*



Dewch draw i botio planhigyn! Mae’r gweithdy hwn yn cynnig cyfle i blant fod yn greadigol a chael ychydig o hwyl a rhywbeth i fynd adref gyda nhw o’r digwyddiad. Gorau oll, mae am

### *Paentio Wynebau*

Trawsnewidiwch yn dywysog, tywysoges, archarwr neu anifail. Mae gan Tracey's Funky Faces y ddawn hudol i'ch trawsnewid chi'n gymeriad o'ch dewis, gan ychwanegu lliw a gliter i wneud i chi ddisgleirio!

| | |
|---|---|
| ddim! | **Facebook: Traceys Funky Faces** |
| ***Gemau enfawr***<br><br><br><br>Gemau enfawr traddodiadol ar gyfer ychydig o hwyl am ddim i'r teulu! Jenga, nadroedd ac ysgolion, KerPlunk, sgitls a Connect 4…<br>Bydd y gemau teuluol enfawr hyn yn dod ag ysbryd cystadleuol pawb o bob oed i'r amlwg! | ***Murrays Bargoed – Gweithgareddau***<br><br>Galwch draw i Murrays sy’n gwneud y mwyaf o’r digwyddiad ac yn cynnal stondinau, cerddoriaeth fyw, perfformiadau ysgol a bydd masgotiaid i’r plant hefyd.<br><br>**Facebook: Murray’s** |
| ***Replica KITT o Knight Rider***<br><br><br><br>Mae K.I.T.T. oedd y partner i 'The Hoff' yn y rhaglen deledu o'r 1980au, "Knight Rider". Roedd gan y Pontiac Trans Am gloywddu sy'n siarad hwn fwy o oleuadau na'r Starship Enterprise ac roedd yn llawn nodweddion gwych fel sganwyr, hwb tyrbo a'r gallu i yrru ei hun. Dyma'ch cyfle i fod yn 'The Hoff' fel Michael Knight a sefyll o flaen y car clasurol | ***Replica Lightning McQueen***<br><br><br><br>Dewch i gwrdd â’r rasiwr proffesiynol ffuglennol, Lightning McQueen, o’r ffilm lwyddiannus "Cars" gan Disney Pixar! Cyfle gwych i dynnu lluniau a bydd y plantos yn gwenu o glust i glust.<br><br>**Facebook: Star Car Hire** |

hwn!

**Facebook: Star Car Hire**

[***Replica Tow Mater***]



Bydd ffrind gorau'r rasiwr ffilmiau enwog Disney Pixar, Tow Mater, yn dod draw i Ffair Fai Bargod i gadw llygad ar Lightning McQueen! Gwyliwch nad yw'n ceisio eich tynnu chi i ffwrdd!

**Facebook: Star Car Hire**

[***Replica Herbie VW Beetle***]




Mae Herbie wedi ymddangos mewn sawl ffilm Walt Disney ac mae'n picio draw i Ffair Fai Bargod i ledaenu 'The Love Bug'. Mae gan y car gwallgof hwn feddwl ei hun; gwyliwch nad yw'n gyrru i ffwrdd ar ei ben ei hun yn unig!

**Facebook: Star Car Hire**

[***Replica Jeep Jurassic Park***]




Wedi'i gynllunio i ddianc rhag deinosoriaid

[***Replica fan Trotter***]




Efallai hwn yw'r cerbyd mwyaf eiconig i rasio'r sgrin deledu erioed, ond bydd cefnogwyr "Only

<table>
<tr>
<td>nerthol, bydd y Jeep Wrangler RC hwn yn aros amdanoch chi yn Ffair Fai Bargod! Cyfle i dynnu lluniau gwych i bobl o bob oed sy'n dwlu ar ffilmiau Jurassic Park!<br><br>Facebook: Star Car Hire</td>
<td>Fools and Horses" wrth eu bodd â'r fan tair olwyn hon!<br><br>Facebook: Star Car Hire</td>
</tr>
<tr>
<td>The Mid Wales Ghostbusters yn cefnogi Tŷ Hafan<br><br><br><br>Mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd ym Margod ar 13 Mai a doedden ni ddim yn gwybod pwy i alw heblaw am y Ghostbusters enwog! Bydd y tîm gwych hwn yn y digwyddiad i godi'r holl arian pwysig i Dy Hafan. Bydd y plant wrth eu bodd yn cael tynnu eu llun wrth ymyl Ecto One!<br><br>Facebook: The Mid Wales Ghostbusters</td>
<td>Y Gwasanaeth Tân<br><br>Cyfle i'r plantos ddod yn agos at injan dân go iawn, dysgu am beth mae'r criw yn ei wneud ac, efallai, cael cyfle i eistedd y tu mewn!<br><br>Facebook: Gorsaf Dân Ac Achub Aberbargod/Aberbargoed Fire and Rescue Station</td>
</tr>
<tr>
<td>Pwyllgor Croesawu<br><br><br>Byddwch chi'n sicr o gael croeso cynnes gyda Bert ac Arthur ar y Pwyllgor Croesawu. Eu nod nhw yw gwneud i chi deimlo'n arbennig ac yn gartrefol. Byddan nhw'n cynnal agoriad swyddogol ar gyfer unrhyw beth sydd angen ei agor yn swyddogol –</td>
<td>Y Colomennod<br><br><br>Yn dragwyddol chwilfrydig ac yn gwbl ddigywilydd, mae'r Colomennod yn gwneud yr hyn y mae colomennod yn ei wneud orau: pigo, a cŵan ac ymgarthu. Yn drawiadol o weledol ac yn ddigrif, mae ein cymeriadau colomennod cerdded o gwmpas bob amser yn gadael argraff</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| stondinau, bagiau, waledi. A'r cyfan wrth roi gwobrau arbennig ar gyfer y 'gorau yn y sioe' – arddangosfa orau, esgidiau gorau, steil gwallt orau, rhieni gorau. CROESO, CROESO.<br>**Facebook: Digging holes street theatre entertainment** | fawr mewn unrhyw ddigwyddiad. |
| ***Drive by!***<br><br>Act ddwbl benigamp fodfilaidd sy'n addas ar gyfer y cyfnod modern. Wedi'u gwisgo mewn siwtiau cain wedi'u teilwra, maen nhw'n perfformio sioe gomedi gyrru heibio ryngweithiol mewn car bach. Gan ymgorffori jyglo, dawnsio swing, ac act comedi dwbl gyda thrac sain hunangynhwysol i wneud i chi deimlo'n dda, mae hwn yn adloniant perffaith i'r teulu. Mae'r bechgyn hyn yn jyglwyr deuawd arbenigol ac wedi perfformio gyda'i gilydd ledled y byd am y 15 mlynedd diwethaf. | ***Dau dwrist gwirion***<br><br>Mae'r twristiaid gwirion hyn mor swnllyd a chwerthinllyd ag y maen nhw'n gallu bod! Byddan nhw'n bachu ar unrhyw gyfle i ryngweithio â phobl a'u tynnu i mewn i'w parodïau chwareus! |
| ***Cylchyn Hwla***<br><br>Mae'r arbenigwr hwla hŵps yma yn hynod fedrus a bydd yn crwydro a pherfformio triciau hwla hŵps gwych! | ***Trwbl â swigod*** |



Pa mor fawr all swigen fod? Hwyl fyrlymus y bydd y plant yn dwlu arno… gwyliwch nad ydych chi'n cael eich gwlychu os byddwch chi'n popian swigen enfawr!

***Dau Gorrach y Gwanwyn***



Gyda'r holl bysgota, dyfrio a sefyll o gwmpas yn edrych ar bethau, mae bywyd yn gallu bod yn brysur iawn i gorachod.

Yn awr ac yn y man, maen nhw'n hoffi mynd allan a rhannu eu hanesion syml am natur, garddio a'r hyn sy'n digwydd draw yn Rhif 24 gyda phobl leol eraill. Mae'r corachod yn gynnes, yn swynol ac mae ganddyn nhw hetiau mawr iawn. Peidiwch â chyffwrdd â'u barfau heb ganiatâd!

***The Magical Musical Bike***



Paratowch i gael eich syfrdanu gan y Beic Cerddoriaeth Hudol wrth iddo fe ddod rownd y gornel. Wedi'i bweru gan fatris, wedi'i wefru gan yr heulwen fendigedig, bydd Steve yn seiclo o amgylch safle'r digwyddiad gydag alawon gwych. Ar unrhyw adeg, bydd e'n neidio oddi ar y beic i gynnig gemau gwirion, cynnwys pobl ifanc mewn sioe dalent, cynnal rhai gemau parasiwt, sialcio ar y palmant neu ofyn i chi ddal cynifer o swigod ag y gallwch chi! Mae'r Beic Cerddoriaeth Hudol hefyd yn gallu cael ei

ddefnyddio ar gyfer cyhoeddiadau am y digwyddiad. Yn rhyfedd, yn drawiadol, mae'n ddisgo ar olwynion... a mwy!

***Y Morlo***



Mae morlo llwyd dau fetr o hyd yn fflapio'i ffordd drwy'r torfeydd, yn taro ei hesgyll ar y ddaear ac yn cwtsio i fyny i bobl a chŵn fel petaen nhw'n rhan o nythfa morloi mawr. Mae hi'n gallu symud yn rhyfeddol o gyflym o ystyried ei braster, yn snwffian yn gynhyrfus ac yn poeri dŵr hallt! Mae pobl yn dwlu arni hi ond nid yw cŵn mor siŵr!

***Eglwys St Gwladys – Gweithgareddau***




**Facebook: St Gwlady's Church Hall**

***Sioeau Pwnsh a Jwdi Paul Wheeler***




Eisteddwch, ymlacio a chael hwyl yn gwylio'r sioe Pwnsh a Jwdi draddodiadol hon!

**Facebook: Paul Wheelers Punch and Judy Show**

***Sw Bach gydag Arddangosfeydd Bywyd Gwyllt***





Swricatiaid, nadroedd, madfallod, pryfed cop, sgorpionau, chwilod duon hisian, malwod enfawr ac ati. Ardal ryngweithiol gyda sgyrsiau byr a chyfleoedd ymarferol drwy gydol y dydd.

***Website: www.wildlifedisplays.co.uk***

### *Gweithdy Syrcas*



Ymarferwch eich sgiliau syrcas gyda dau berfformiwr syrcas medrus iawn. Bydd yr offer ar gael drwy'r dydd i blant ac oedolion i brofi eu sgiliau a chael ychydig o hwyl am ddim!

### *Perfformiadau byw*



Bydd Côr Meibion Bargod, côr merched lleol, Ysgol Gymraeg Bro Sannan a Dancelicious i gyd yn perfformio y tu allan i ardal Iceland trwy gydol y dydd.

### *Cymdeithas Ail-greu HMS Wales*







Mae HMS Wales yn helpu dod â hanes yn fyw drwy ddarparu profiad hanesyddol unigryw i ymwelwyr ei brofi drwy fynd yn ôl i gyfnod y Llyngesydd Nelson ym 1805 a brwydr Trafalgar. Bydd perfformwyr ail-greu gwybodus a chyfeillgar yn barod i ddifyrru, addysgu a rhyngweithio â

chi yn ogystal â chynnig Her Llynges Nelson unigryw! Yr her yw cyfres o stondinau, wedi'u cynllunio i'ch galluogi i ddod yn ymarferol â hanes.

**Dec Gynnau:** mae hwn yn cynnwys bwrdd yn llawn o'r darnau y byddai gwn llong yn eu tanio, fel peli canon, sy'n ddigon bach i'r rhan fwyaf o bobl eu codi a'u teimlo er mwyn deall sut roedd y gynnau'n gweithio. Ynghyd â hyn, mae'r dec gynnau, gwn llong ffug, sy'n caniatáu i blant ddysgu'r weithdrefn lwytho ar gyfer canon llong hwylio. Mae'n hwyl i'r teulu cyfan.



**Stondin Arfdy:** bwrdd yn llawn amrywiaeth o arfau ffug. O gytlas go iawn, i bistolau, mysgedau, bwyelli a gwaywffyn. Bydd dros ddwsin o wahanol arfau bach i ganiatáu i'r cyhoedd ddod yn ymarferol gyda hanes. Dyma ail stondin fwyaf poblogaidd HMS Wales ar ôl y dec gynnau.



**Stondin Signalau:** Bydd y stondin hon yn addysgu pobl am sut y byddai llongau hwylio yn cyfathrebu ac yn caniatáu i'r cyhoedd roi cynnig ar greu eu negeseuon eu hunain yn ogystal â “chracio'r cod” ar eraill.



**Stondin Clymau –** Bydd ymwelwyr yn cael y cyfle i ddysgu'r 5 cwlwm sylfaenol y dylai pob morwr gwerth ei halen eu gwybod!



**Gwefan:** www.hmswales.co.uk

**Facebook:** www.facebook.com/hmswales1805

*(Gall yr holl wybodaeth newid. Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg ei chynhyrchu)*